Sganiwch i roi adborth
Gallwch roi adborth hefyd trwy fynd i:
www.npt.gov.uk/pontneddfechan

Mae'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg ymgynghori wedi'i ymestyn i Ddydd Llun 13 Tachwedd 2023




# GWEITHDY PROSIECT CODI’R GWASTAD PONTNEDDFECHAN

Cyfle i roi mewnbwn wrth gynhyrchu syniadau ac atebion posibl i ddatblygu’r cynllun wrth symud ymlaen

*08.11. 2023 | 4.30 – 7.30yh | Neuadd Pentref Pontneddfechan*

Mewn ymateb i adborth wrth y gymuned, rydym nawr yn bwriadu dal y sesiwn hon yn yr un fformat â'r gweithdy a gynhaliwyd ar 23 Hydref i roi cyfle arall i helpu i lunio'r cynllun. Gwahoddir preswylwyr i alw heibio unrhyw bryd yn ystod y noson, ac bydd y gweithdai’n cychwyn bob 30-40 munud yn dibynnu ar y nifer sy’n bresennol.

Hiraeth.
CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT
NEATH PORT TALBOT COUNCIL
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO

# BETH FYDD YN DIGWYDD YN Y GWEITHDY?

Mae hwn yn gyfle i ymwneud â datblygu'r dyluniad, gan gynnwys cyfle i ryngweithio o ran yr hyn hoffech chi ei weld yn y pentref, a dylanwadu ar y canlyniad. Mae hwn yn weithdy ymarferol, a seiliwyd ar weithgareddau, sy'n troi o gwmpas meddwl am ddylunio – gan gynnwys nodi'r problemau a deall y defnyddwyr.

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

Sylwch fod y cwestiynau hyn yn cynrychioli sampl o'r rhai a ofynnwyd yn y sesiwn galw heibio gychwynnol. Yn dilyn y gweithdy ar 8 Tachwedd bydd adroddiad adborth yn cael ei gynhyrchu, a fydd yn crynhoi'r gwybodaeth o'r sesiynau gweithdy wyneb yn wyneb a'r adborth ar-lein

**Pam rydym ni'n gweld pobl ar y safle?**
Bydd trigolion yn gweld peth gweithgarwch ar y safle yn ystod y misoedd sy'n dod wrth i arolygon gael eu cynnal.

**Sut gall contractiwr gael ei benodi os nad yw'r cynllun wedi'i lunio'n derfynol?**
Cafodd y gwaith ei dendro ar sail dylunio ac adeiladu, sy'n golygu bod dylunio manwl yn digwydd ar ôl i'r contractiwr gael ei benodi.

**Beth yw'r rhaglen ar gyfer y datblygiad?**
Mae'r rhaglen gyflawni ddrafft yn dangos y bydd y cynllun, wedi ymgynghori cymunedol, yn cael ei gyflwyno ar gyfer caniatâd cynllunio yn Ebrill/Mai 2024, gyda golwg ar gychwyn gwaith ar y safle ym mis Hydref 2024. Unwaith mae'r contractiwr ar y safle, bydd y gwaith yn cymryd rhyw 60 wythnos i gyflawni.

**Pa gyfleoedd sydd yna i ymgysylltu â'r broses?**
Yn ogystal â'r gweithdy ar 23 Hydref 2023, bydd sesiwn adborth a thrafod ddilynol ym mis Tachwedd 2023. Wrth i gynigion y prosiect ddatblygu bydd Ymgynghoriad Cymunedol cyn y Cais, ac wedi hynny gyfle i wneud sylwadau ar y cais cynllunio ffurfiol.

**Pam mae wedi cymryd tan nawr i'r ymgynghoriad ddigwydd?**
Mae rhaid i ymgynghori barhau am fwy na 10 mlynedd o fewn y pentref er mwyn canfod materion mae'r gymuned yn eu hwynebu. Cafodd y cynllun amlinellol cychwynnol a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad blaenorol ei ddatblygu er mwyn denu cyllid o Gronfa Codi'r Gwastad. Y nod yw buddsoddi mewn seilwaith sy'n gwella bywyd pob dydd ar draws y Deyrnas Unedig, ochr yn ochr â chyflawni allbynnau economaidd i gymunedau. Heb i ddyraniad y cyllid gadarnhau bod modd i gynllun fodloni'r gofynion economaidd, nid oedd prosiect posibl i'r pentref yn bodoli.

**Ydy'r cynllun wedi cael ei gynnig gyda'r gymuned mewn golwg, nid dim ond ymwelwyr?**
Mae'r gymuned yn ganolog i'r cynnig hwn. Mae effaith negyddol ymwelwyr ar drigolion lleol wedi bod yn cynyddu, a bwriad y cynllun yw gweithredu ar sail adborth trigolion i reoli'r effeithiau hyn yn fwy effeithiol trwy ddarparu ateb parcio parhaol, gan wella diogelwch y briffordd ac annog ymwelwyr i weithredu mewn ffordd fwy cyfrifol. Mae'r cynllun yn cynnwys siop fferm neu gymunedol er mwyn rhoi darpariaeth yn ei lle sydd wedi cael ei cholli'n hanesyddol o'r pentref, ac mewn lleoliad sy'n fwy gweladwy i ymwelwyr. Mae llety i ymwelwyr wedi cael ei gynnwys er mwyn cynhyrchu allbwn economaidd a fydd nid yn unig yn golygu bod ymwelwyr yn gwario mwy o arian yn yr economi leol, ond hefyd yn creu cyfleoedd cyflogaeth a busnes yn y pentref.

**Beth yw manteision y cynigion i dwristiaid?**
Bydd twristiaid yn elwa o lwybr llawn gwybodaeth â digon o arwyddbyst i'r rhaeadrau, a fydd yn cynorthwyo gyda'u profiad diogel o'r ardal, y nghyd ag amlygu ystyriaethau lleol. Bydd hyn yn cynnwys lleoedd clir ac amlwg i barcio ceir, a chapasiti i reoli'r galw presennol, ynghyd â byrddau gwybodaeth ynghylch ardal y rhaeadrau a'r gymuned o'u hamgylch.

**Fydd y cynllun yn cynyddu nifer yr ymwelwyr?**
Deellir pryderon y gymuned leol y gallai'r cynllun gynyddu nifer yr ymwelwyr, fodd bynnag, fel rhan o'r cyflwyniad i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Cronfa Ffyniant Bro, gwnaed modelu ymwelwyr manwl, oedd yn dangos y byddai cynnydd bychan yn digwydd yn naturiol heb i'r cynllun gael ei gyflwyno. Nid yw'r cynigion yn bwriadu ychwanegu at hynny.

**Faint o leoedd parcio i geir fydd yn cael eu creu?**
Bydd hyn yn cael ei gadarnhau unwaith mae'r dyluniadau manwl wedi'u cwblhau, fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd y cynllun yn creu 150-230 o leoedd parcio ychwanegol, sy'n cynnwys lleoedd parcio i feiciau modur, bysiau mini a choetsys, er mwyn mynd â'r cerbydau hynny oddi ar y ffordd fawr. Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys 13 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i'w defnyddio gan y gymuned ac ymwelwyr.

**Pam mae gorchmynion prynu gorfodol yn angenrheidiol ar gyfer y cynigion?**
Wrth ystyried opsiynau ar gyfer y cynllun, cynhaliwyd astudiaeth i adolygu ble gellid darparu ar gyfer y niferoedd gofynnol o leoedd parcio ar dir oedd eisoes ar gael, gyda mynediad da, yn bwysig, i daith gerdded y rhaeadrau. Cyfyngwyd yr opsiynau hyn ymhellach i rai o fewn ffiniau Castell-nedd Port Talbot, sef yr awdurdod lleol sy'n gwneud y cais ariannu. Oherwydd nifer y ceir syddd eisoes yn defnyddio'r rhaeadrau, nid oedd safle addas ar gael heb wynebu costau rheoli parhaus ychwanegol. Er mwyn cadw at derfynau amser y Gronfa Ffyniant Bro, cychwynnwyd proses Gorchymyn Prynu Gorfodol o reidrwydd. Mae'r broses yn parhau, ond mae cytundeb wedi'i gyd-drafod yn cael sylw manwl fel opsiwn a ffafrir yn y cyfamser.

**Sut bydd y ffermwr yn ffermio'u tir wrth symud ymlaen?**
Mae trafodaethau'n parhau ynghylch y cyfle i gyd-drafod prynu'r ffermdir sy'n angenrheidiol i barcio ceir, er mwyn lliniaru'r materion ehangach a fynegwyd gan y pentref. Mae'r defnydd parhaus o'r fferm yn rhan o'r sgyrsiau hyn.

**Pam mae buddion economaidd yn angenrheidiol?**
Mae'r Gronfa Ffyniant Bro wedi'i fwriadu ar gyfer prosiectau seilwaith lleol sydd ag effaith weladwy ar bobl a'u cymunedau, ac a fydd yn cefnogi adferiad economaidd. O ganlyniad, mae'r buddion economaidd yn un o amodau cynhenid yr ariannu, ac yn un o'r allbynnau sy'n ofynnol yn y cynigion.

**Fydd y cynigion yn gorlethu'r system ddraenio bresennol yn y pentref?**
Bydd y datrysiad draenio ar gyfer y cynigion yn cael ei lunio'n unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoliadol. Mae hyn yn sicrhau na roddir straen ychwanegol ar ddraenio presennol os nad oes modd darparu ar ei gyfer. Datblygir yr union fanylion wrth i'r prosiect fynd rhagddo, ond bydd gofyn arddangos hyn fel rhan o unrhyw gais cynllunio.